# cyllid myfyrwyr cymru
# student finance wales

## EICH TAITH CYLLID MYFYRWYR

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

CYN PRIFYSGOL

**Rydych chi'n penderfynu mynd i addysg uwch**

**Cewch wybod pa gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.**
Ewch i'n parth cyllid myfyrwyr yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu dewch o hyd i ni yn **https://www.ucas.com/money-and-student-life/money/student-finance/student-finance-wales**

**Ymgeisiwch am gyllid myfyrwyr ar-lein ar www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
Sicrhewch fod gennych eich pasbort, manylion banc a rhif Yswiriant Gwladol wrth law.



**Darparwch dystiolaeth.**
Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon unrhyw dystiolaeth y gofynnwn amdani cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi wrth brosesu eich cais.

**Mae eich rhiant neu bartner yn darparu manylion incwm.**
Mae'n bwysig iawn eu bod yn anfon y rhain atom cyn gynted â phosibl er mwyn i chi gael cymaint o arian ag y mae gennych hawl iddo.

**Rydym yn asesu eich cais.**
Byddwn yn anfon llythyr atoch yn cadarnhau faint y byddwch yn ei gael.

YN Y BRIFYSGOL

**Dechrau prifysgol.**
Mae angen i chi gofrestru yn y brifysgol cyn y gallwn wneud eich taliad cyntaf.

**Codir llog o'r diwrnod y byddwn yn gwneud eich taliad cyntaf.**

**Ailymgeisio am gyllid myfyrwyr bob blwyddyn.**



**Rydych chi'n graddio.**

AR ÔL Y BRIFYSGOL

**Byddwch yn dechrau ad-dalu'r mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, ond dim ond pan fyddwch yn ennill dros swm penodol (£27,295 y flwyddyn). Pan fyddwch yn dechrau ad-dalu, byddwch yn gwneud ad-daliadau i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.**

**Mae symiau llog yn amrywio.**
Bydd faint o log a godir arnoch yn seiliedig ar eich incwm.

**Os bydd eich incwm yn gostwng o dan £27,295 bydd eich ad-daliadau yn dod i ben. Gwiriwch delerau ad-dalu eleni yn https://www.gov.uk/repaying-yourstudent-loan**

**Bydd eich benthyciad yn cael ei ganslo 30 mlynedd ar ôl i chi ddod yn ddyledus i ddechrau ad-dalu.**